Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/TJ

12 Chwefror 2019

Annwyl Mick

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Fel y gwyddoch, yn gynharach heddiw fe gyflwynais Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn y Cynulliad.

Mae atodiad 1 i'r ohebiaeth hon yn cynnwys fy natganiad o fwriad polisi, ac mae atodiad 2 yn cynnwys gohebiaeth a gafwyd yn ddiweddar gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'm hymateb i'r ohebiaeth honno. Rwy'n rhagweld y gall y rhain fod o ddiddordeb i'ch pwyllgor wrth iddo graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Yn olaf, credaf y gall fod o gymorth rhoi rhywfaint o gyd-destun i'ch pwyllgor wrth iddo drafod adran 27 o'r Bil: 'Dyletswydd i ystyried diwygio'r modd y goruchwylir y Comisiwn Etholiadol.'

Barn y Comisiwn Etholiadol yw y dylai gael ei gyllido gan y Cynulliad a bod yn atebol i'r Cynulliad, yn hytrach na Senedd y DU, am ei waith yn ymwneud ag etholiadau datganoledig.

Gan mai'r Cynulliad sy'n gyfrifol am etholiadau datganoledig, mae Comisiwn y Cynulliad o'r farn y dylai'r Cynulliad hefyd ystyried newid y trefniadau cyllido a goruchwylio ar gyfer etholiadau datganoledig. Datganolwyd y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud hyn yn Neddf Cymru 2017, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2018.

Fodd bynnag, mae nifer o faterion allweddol sydd angen ystyriaeth bellach, gan gynnwys:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

- y gost i'r Comisiwn Etholiadol reoleiddio etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru;
- cyllido'r fath gostau gan y Cynulliad;
- sut y câi'r arian i dalu costau o'r fath ei drosglwyddo o San Steffan i'r Cynulliad;
- y trefniadau i'r Cynulliad ddwyn y Comisiwn Etholiadol i gyfrif am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru; a
- sut y byddai trefniadau craffu o'r fath yn gweithio ochr yn ochr â gwaith craffu Senedd y DU ar y Comisiwn Etholiadol.

Felly, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried a ddylai'r Comisiwn Etholiadol gael ei gyllido gan y Cynulliad am ei waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru, ac a ddylai fod yn atebol i'r Cynulliad am y gwaith hwnnw.

Bwriad y ddarpariaeth hon yn bennaf yw rhoi arwydd o fwriad polisi (yng Nghyfnod 1 o'r Bil) i roi sylw i drefniadau cyllido ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol trwy welliannau i'r Bil.

Os bydd y Cynulliad yn argymell y dylid cefnogi cymryd cam o'r fath, rwy'n rhagweld y byddai gwelliannau yn cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 i lunio trefniadau i'r Comisiwn Etholiadol gael ei gyllido gan y Cynulliad a bod yn atebol iddo.

Wrth ymdrin â'r mater yn y ffordd hon, rwyf wedi ystyried y pryderon posibl na fydd gan Aelodau ond cyfle cyfyngedig i graffu ar drefniadau o'r fath. Fodd bynnag, credaf fod y ffordd hon (sef defnyddio'r Bil hwn fel cyfrwng deddfwriaethol i gyflwyno darpariaeth o'r fath) yn ffordd fwy priodol o ddefnyddio amser y Cynulliad na chyflwyno'r trefniadau mewn Bil annibynnol.

Edrychaf ymlaen at ymgysylltu â'r Pwyllgor ymhellach yng Nghyfnod 1.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd